

## FFURFLEN ASESU EFFAITH AR Y GYMRAEG

Diben y ffurflen Asesu Effaith ar y Gymraeg yw galluogi Cyngor Rhondda Cynon Taf i ystyried egwyddorion a gofynion [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 1\) 2015](#) er mwyn cydymffurfio â [Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#).

<b>Cam 1 – Casglu Gwybodaeth</b>	
<b>NODER:</b> Wrth i chi gwblhau'r asesiad yma, bydd gofyn i chi gyflwyno <b>tystiolaeth i ategu'ch sylwadau</b> . Gweler <a href="#">Canllawiau Asesu Effaith ar y Gymraeg</a> i gael rhagor o wybodaeth am ffynonellau data.	
<b>Enw'r Cynnig:</b>	<b>YMGYNGHORIAD AR Y CYNIGION I WELLA DARPARIAETH DOSBARTHIAU CYNNAL DYSGU PRIF FFRWD – ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN RHONDDA CYNON TAF</b>
<b>Adran</b>	Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant
<b>Cyfarwyddwr Gwasanaeth</b>	Gaynor Davies
<b>Swyddog sy'n llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg</b>	Lisa Carter
<b>E-bost</b>	<a href="mailto:Lisa.c.carter@rctcbc.gov.uk">Lisa.c.carter@rctcbc.gov.uk</a>
<b>Ffôn</b>	01443 744344
<b>Disgrifiad Cryno</b>	<p>Gwella'r ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu bresennol i fodloni'r galw am leoliadau arbenigol. Caiff hyn ei gyflawni drwy'r dulliau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu (Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol Ysgol Gynradd Cwmaman. Bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2025.</li><li>• Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu (Ymyrraeth) y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol Ysgol Gynradd Penyreglyn. Bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2025.</li></ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion ym Mlynnyddoedd 7 i 11 ag Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gyfun Aberpennar o fis Medi 2025.</li> <li>• Symud y Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion blynnyddoedd 3 i 6 ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun i Ysgol Gynradd Hirwaun o fis Medi 2025.</li> <li>• Sefydlu un Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Hirwaun i sefydlu darpariaeth pob oed yn y Cyfnod Cynradd o fis Medi 2025.</li> </ul>
<b>Dyddiad</b>	4 Medi 2024
<b>Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio: (Defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr, cymuned ehangach)</b>	Disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n gofyn am ddarpariaeth arbenigol, eu rhieni / gwarcheidwaid a'r gymuned anghenion dysgu ychwanegol ehangach.

<b>Beth yw nodau'r polisi, a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r Gymraeg?</b>	<p>Mae Adran 315 o Ddeddf Addysg 1996 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal adolygiadau rheolaidd o'r trefniadau sy'n cefnogi disgyblion sydd ag AAA/ADY, yn ogystal â sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddigonol ac yn diwallu anghenion y gymuned. Mae parhau i ganolbwyntio ar wella safonau mewn ysgolion yn ogystal â gwella deilliannau plant a phobl ifainc yn flaenoriaeth i'r Gyfadrn Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant.</p> <p>Bydd y cynigion yma'n mynd i'r afael â phroblemau o ran capasiti dros ben a diffyg capasiti mewn darpariaethau allweddol, gan sicrhau bod modd i'r adnoddau i gael eu hatgyfeirio er mwyn gwella'r capasiti ar gyfer cynnwys disgyblion yn y brif ffrwd, yn ogystal â darparu ymyriad cynnar a dulliau gweithredu ataliol. Yn ogystal â hynny, bydd y cynigion yn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng nifer y darpariaethau addysg gynradd ac addysg uwchradd, a phroblemau o ran pontio a hygyrchedd. Mae'r cynigion hefyd yn ceisio mynd i'r afael â'r angen i sefydlu darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu arbenigol ychwanegol yn y Blynnyddoedd Cynnar i fodloni'r cynnydd yn y galw am leoliadau ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol.</p> <p>Er mai bwriad y newidiadau i Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu arfaethedig yw gwella darpariaeth cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymhleth, Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol/Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, a disgyblion Blynnyddoedd Cynnar ag ADY sylweddol, fydd y</p>
---	--

	<p>cynigion arfaethedig ddim yn cael effaith uniongyrchol ar y Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Nodir bod Rhondda Cynon Taf wedi agor darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg newydd yn ddiweddar ar gyfer disgyblion oed uwchradd yn Ysgol Garth Olwg a agorodd ym mis Medi 2023, ac yn fwy diweddar mae Rhondda Cynon Taf wedi agor 2 ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu cyfnod cynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd, sef YGG Awel Taf. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi cyfle i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol gael eu haddysgu'n llawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma'r cyntaf o'u math yma yn Rhondda Cynon Taf ac maen nhw ar gael i bob disgybl sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf. O'r herwydd, caiff y galw a'r nifer sy'n manteisio ar y darpariaethau hyn eu monitro'n agos. Os bydd y galw am leoedd disgyblion ADY cyfrwng Cymraeg yn cynyddu, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried datblygiadau yn y dyfodol mewn ardaloedd eraill o'r fwrdeistref sirol i sicrhau digonolrwydd addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu sylweddol yn Rhondda Cynon Taf. Os oes rhieni/gwarcheidwaid sy'n dymuno anfon eu plentyn/plant i'r darpariaethau hyn ac sy'n byw y tu allan i'r dalgylch, bydd cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â'r Polisi Cludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol.</p> <p>Yn unol â'r cynigion, bydd swyddi Athrawon a Chynorthwyr Dosbarth Cynnal Dysgu ychwanegol yn cael eu sefydlu. Mae'n ofynnol i holl staff newydd y Cyngor ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg Lefel 1. Bydd y staff hynny sy'n llwyddo i gyflawni Lefel 1 yn cael eu hannog i wella eu sgiliau trwy ddilyn lefelau 2 a 3 .</p>
<p><b>Pwy fydd yn elwa? / Oes modd i'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg? Os felly, rhestrwch nhw yma.</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Disgyblion cyfrwng Saesneg yn y Cyfnod Cynradd ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol/Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig.</li> <li>• Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar sy'n iau na'r oedran ysgol statudol sydd ag anghenion sylweddol.</li> <li>• Disgyblion cyfrwng Saesneg Blwyddyn 7-11 (Cyfnod Allweddol 3/4 yn flaenorol) ag Anawsterau Dysgu Cymhleth.</li> <li>• Disgyblion yn yr ysgol lle mae'r dosbarth wedi'i sefydlu.</li> <li>• Rhieni/gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion sydd â Dosbarthiadau Cynnal Dysgu a'r rheini sydd â phlant/pobl ifainc ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol.</li> <li>• Staff mewn ysgolion sydd â Dosbarthiadau Cynnal Dysgu.</li> <li>• Dyma'r ysgolion sydd â Dosbarthiadau Cynnal Dysgu: Ysgol Gynradd Cwmaman, Ysgol Gynradd Penynglyn, Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gynradd Hirwaun.</li> <li>• Disgyblion sy'n mynychu ysgolion eraill ar hyn o bryd ac y gallai fod angen iddyn nhw symud ysgol i gael mynediad i'r darpariaethau yn yr ysgolion cynnal arfaethedig.</li> </ul>

**Proffil ieithyddol cyfredol yr ardal(oedd) ddaearyddol dan sylw**

Mae ffigurau Cyfrifiad 2021 ynghylch y Gymraeg yn dangos bod canran siaradwyr Cymraeg ledled Cymru wedi gostwng i 17.8%. Serch hynny, gwelodd Rhondda Cynon Taf gynnydd bychan gyda chanran poblogaeth y Fwrdeistref Sirol sy'n gallu siarad Cymraeg yn codi o 12.3% i 12.4%. Mae data'n dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf wedi cynyddu o 27,779 i 28,556, sef cynnydd o 2.8%. Yn wir, Rhondda Cynon Taf oedd un o bedwar Awdurdod Lleol yng Nghymru yn unig i weld cynnydd yng nghanran ei siaradwyr Cymraeg. Y lleill oedd Caerdydd, Bro Morgannwg a Merthyr Tudful. Mae pob un o'r awdurdodau lleol yma'n Fwrdeistrefi sirol cyfagos. Efallai bod hynny'n dangos bod ein rhanbarth ni'n gweld rhai tueddiadau cadarnhaol o ran cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, ac y gallai'r cynnydd yma arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth i ddata pellach, manylach, o'r Cyfrifiad ar gyfer Rhondda Cynon Taf ddod i'r fei, bydd angen i ni ystyried pa effaith y gallai ei chael ar y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu. Mae'r tabl isod yn dangos sgiliau Cymraeg trigolion sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac mae'r rhain yn deillio o Gyfrifiad 2021.

**Tabl 1: Sgiliau Cymraeg Trigolion – (%)**

	<b>Cyfanswm y Trigolion sy'n Byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf</b>	<b>Cymru Gyfan</b>
<b>Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg</b>	10.1%	14.8%
<b>Yn gallu siarad a darllen Cymraeg ond yn methu â'i hysgrifennu</b>	0.7%	1.2%
<b>Yn gallu siarad Cymraeg ond yn methu â'i darllen na'i hysgrifennu</b>	1.4%	2.4%
<b>Yn gallu darllen ond methu siarad nac ysgrifennu Cymraeg</b>	1.6%	1.4%

<b>Yn gallu ysgrifennu ond methu siarad na darllen Cymraeg</b>	0.2%	0.2%
<b>Yn gallu darllen ac ysgrifennu ond methu siarad Cymraeg</b>	0.5%	0.6%
<b>Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig</b>	4.0%	5.5%
<b>Cyfuniad Arall o Sgiliau</b>	0.1%	0.2%
<b>Dim sgiliau</b>	81.3%	77.1%
<b>Cyfanswm</b>	<b>100%</b>	<b>100%</b>

Mae'r data'n dangos bod lefel sgiliau Cymraeg trigolion Rhondda Cynon Taf ar y cyfan yn is na lefel sgiliau Cymraeg Cymru gyfan.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cymorth wedi'i rhoi i hyrwyddo a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg trwy weithredu'r Siarter Iaith/Cymraeg Campus mewn partneriaeth â'r Consortiwm. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg Rhondda Cynon Taf wedi ymgysylltu â'r rhaglen sy'n ceisio datblygu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Yn fwy diweddar, mae'r Consortiwm wedi dechrau gweithio gydag ysgolion arbennig, dosbarthiadau cynnal dysgu ac unedau cyfeirio disgyblion yn Rhondda Cynon Taf i roi rhaglen y Siarter Iaith (Cymraeg Campus) ar waith. Hyd yn hyn, mae 4 ysgol/uned arbennig wedi ennill gwobr efydd Cymraeg Campus. Gallai ymgysylltu parhaus â'r Siarter Iaith gyfrannu at nod uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor, sy'n anelu at gynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, yn sgwrsio'n hyderus gan ddefnyddio'r Gymraeg ac yn ymgymryd ag astudiaethau a chymwysterau Cymraeg.

<b>Data neu ymchwil perthnasol arall</b>	Mae'r data yn y tabl sy'n dilyn yn deillio o CYBLD ac yn dangos nifer a chanran y disgyblion ag ADY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn Rhondda Cynon Taf am y pum mlynedd academiaidd flaenorol, hyd at a chan gynnwys blwyddyn academiaidd 2023-2024. Mae'r data'n dangos gostyngiad bychan yng nghanran y
--	---



disgyblion ag ADY mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn erbyn cefndir o ganran gynyddol o ddisgyblion ag ADY mewn addysg cyfrwng Saesneg, sy'n dangos y galw am y newidiadau a gynigir yn yr ymgynghoriad yma.

<b>Nifer a Chanran y Disgyblion ag ADY yn yr Ysgol yn Rhondda Cynon Taf Wedi'i Rhannu yn ôl Cyfrwng Iaith</b>										
<b>Blwyddyn Academaidd</b>										
<b>Blwyddyn</b>	<b>2019-2020</b>		<b>2020-2021</b>		<b>2021-2022</b>		<b>2022-2023</b>		<b>2023-2024</b>	
<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	1,367	18.57%	1,090	14.83%	200	2.77%	256	3.58%	209	2.97%
<b>Cyfrwng Saesneg</b>	6,283	20.3%	5,310	17%	1,508	4.87%	1,926	6.28%	2,049	6.76%

Mae'r data yn y tabl isod yn dangos canran yr atgyfeiriadau a ddaeth i law carfan Mynediad a Chynhwysiant yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf. Dydy'r data yma ddim yn cynnwys atgyfeiriadau o bob ffynhonnell arall heblaw am Brif Ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg gan gynnwys Dosbarthiadau Cynnal Dysgu.

	<b><i>Blwyddyn Academaidd 2023/24</i></b>
<b>Canran yr Atgyfeiriadau o Ysgolion Cyfrwng Cymraeg</b>	<b>14%</b>
<b>Canran yr Atgyfeiriadau o Ysgolion Cyfrwng Saesneg</b>	<b>79%</b>

Er bod y data'n dangos bod nifer a chanran y disgyblion ag ADY mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, a chanran yr atgyfeiriadau a ddaeth i law mewn perthynas â disgyblion cyfrwng Saesneg yn uwch na'r rhai mewn addysg

cyfrwng Cymraeg, mae'r Awdurdod Lleol yn gwbl ymrwymedig i gynyddu niferoedd a chanrannau disgyblion ag ADY sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg. Dyma ganolbwynt allweddol Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor o dan Ddeiliant 6 – cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae grŵp pwrpasol wedi'i sefydlu sy'n cynnwys aelodau o garfan Mynediad a Chynhwysiant yr Awdurdod Lleol, aelodau'r Bwrdd Iechyd Lleol, cynrychiolwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg a phartneriaid o sefydliadau Cymraeg megis RhAG a Mudiad Meithrin. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob tymor i drafod nifer o gamau gweithredu fel y'u rhestrir ar y cynlluniau gwaith blynyddol a gaiff eu diweddarau bob blwyddyn i adlewyrchu'r flwyddyn i ddod. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2023-2024, canolbwynt allweddol ar gyfer datblygu oedd codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion ag ADY fynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Fel y cyfryw, bu'r Awdurdod Lleol yn gweithio gydag ysgolion yn Rhondda Cynon Taf i greu fideo hyrwyddo wedi'i dargedu sy'n cynnwys cyfweiliadau ag athrawon a rhieni. Caiff y fideo ei rannu bob hyn a hyn ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor ac mae ar gael ar y wefan gorfforaethol. Yn ogystal, mae carfan Mynediad a Chynhwysiant yr Awdurdod Lleol wedi paratoi taflenni hyrwyddo sy'n cynnwys gwybodaeth am y cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i gefnogi disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd y taflenni hyn ar gael i'r cyhoedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a ddaeth i Rhondda Cynon Taf ym mis Awst 2024. Yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol yma (2024-25) bydd y grŵp yn ystyried sut mae modd rhannu'r adnoddau hyn mor eang â phosibl. Gallai hyn fod trwy ddsbarthu mewn unrhyw achlysuron cyhoeddus, ymweld â lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar i roi copiâu i rieni/gwarcheidwaid o'r cyfnodau cynharaf a hefyd nodi dulliau eraill o farchnata a hyrwyddo'r cynnig addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag ADY. Bydd hyn yn parhau i fod yn ganolbwynt datblygu allweddol ar gyfer yr Awdurdod Lleol drwy gydol cyfnod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Ar hyn o bryd mae gan Rondda Cynon Taf 2 Ddosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer y Cyfnod Cynradd yn YGG Awel Taf. Mae yno le i 18 o ddisgyblion sy'n dangos anghenion sylweddol. Mae hefyd gan Rondda Cynon Taf Ddosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer Cyfnod Allweddol 3/4 yn Ysgol Garth Olwg. Mae yno le i 14 o ddisgyblion sy'n dangos anghenion sylweddol. Mae sefydlu'r darpariaethau yma wedi creu budd sylweddol i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg ag ADY sylweddol ledled Rhondda Cynon Taf ac mae wedi sicrhau gwell cydraddoldeb a mynediad i ddarpariaeth arbenigol. Mae parhau i ganolbwyntio ar wella safonau mewn ysgolion yn ogystal â gwella deilliannau plant a phobl ifainc yn flaenoriaeth i'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant. Yng ngoleuni Agenda Trawsnewid ADY Llywodraeth Cymru a gweledigaeth y

Cyngor i gynyddu nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg yn ei ysgolion trwy ymateb yn rhagweithiol i strategaethau cenedlaethol a lleol, megis Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Rhondda Cynon Taf a chynllun Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> ganrif cyfredol i gynyddu a gwella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg Rhondda Cynon Taf.

Cafodd profforma ei ddsbarthu i holl athrawon a staff cymorth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf. Roedd gofyn iddyn nhw nodi eu sgiliau o ran y Gymraeg. Wrth gwblhau'r profforma, gofynnwyd i athrawon a staff cymorth y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ddefnyddio Canllaw Sgiliau Iaith Gymraeg Rhondda Cynon Taf<sup>1</sup> cyn nodi pa lefel ydyn nhw. Mae'r data yn gywir ar 20/06/2023. Fodd bynnag, rhaid cofio bod y data yma wedi'i gasglu cyn penodi 4 Cynorthwy-ydd Cynnal Dysgu a 3 Athro Dosbarth Cynnal Dysgu sy'n gwbl rugl yn y Gymraeg yn haf 2024.


Ffigur 1 – Data athrawon a staff cymorth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu Rhondda Cynon Taf.

<b>Sgiliau o ran y Gymraeg</b>	<b>Nifer yr aelodau o staff</b>
Lefel 1	96
Lefel 2	18
Level 3	4
Lefel 4	5
Lefel 5	1
<b>CYFANSWM</b>	<b>124</b>

<sup>1</sup>[www.rctcbc.gov.uk/sgiliaucymraeg](http://www.rctcbc.gov.uk/sgiliaucymraeg)




Athrawon



■ Level 1 ■ Level 2 ■ Level 3 ■ Level 4 ■ Level 5

Cynorthwyr Dysgu



■ Level 1 ■ Level 2 ■ Level 3 ■ Level 4 ■ Level 5

Ffigur 2 – Sgiliau o ran y Gymraeg athrawon a chynorthwyr addysgu mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf

- O'r 50 o'r athrawon yn y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu a ymatebodd, mae gyda 60% ohonyn nhw sgiliau Lefel 1 o ran y Gymraeg ar hyn o bryd. Nododd ymatebion y cynorthwyr addysgu fod gyda 89% o'r cynorthwyr addysgu sgiliau Lefel 1 o ran y Gymraeg ar hyn o bryd.
- Nododd 30% o'r athrawon yn y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu fod gyda nhw sgiliau Lefel 2 o ran y Gymraeg. Nododd 4% o'r cynorthwyr addysgu yr un peth.
- Mae gan 2% o'r athrawon sgiliau Lefel 3 o ran y Gymraeg ar hyn o bryd, ac mae 3% o'r cynorthwyr addysgu yn y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn nodi'r un peth.
- Mae 6% o'r athrawon yn nodi bod ganddyn nhw sgiliau Lefel 4 o ran y Gymraeg, ac mae 3% o'r cynorthwyr addysgu yn nodi'r un peth.
- Does dim un athro neu athrawes â sgiliau Lefel 5 o ran y Gymraeg ar hyn o bryd er bod 1 cynorthwydd addysgu wedi nodi ei fod â sgiliau Lefel 5.

### Cam 2 – Asesu Effaith

Yma mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau rydych chi'n eu cymryd i wella. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r cyfleoedd i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a manteisio ar wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn israddol i'r hyn sydd ar gael i'r rhai sy'n dewis gwneud hynny yn Saesneg, yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Commented [BR1]: Can 'level' be changed to 'lefel' please

Sylwch fod asesiad effaith ar wahân ar gyfer cydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol y mae'n rhaid eu cwblhau hefyd ar gyfer cynnig polisi.

Cofiwch y gallai effeithiau cadarnhaol i rai grwpiau fod yn niweidiol i eraill – hyd yn oed ymhlith grwpiau Cymraeg. Ystyriwch yr effeithiau ar wahanol grwpiau. Er enghraifft, mae'n bosibl bod cynnig o fudd i ddysgwyr Cymraeg, ond nid i siaradwyr Cymraeg.

**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?**

	<b>A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?</b>	<b>Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.</b>	<b>Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?</b>	<b>Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?</b>
<p><b>Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg</b></p> <p>e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr</p> <p>Hawliau siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith</p>	<b>Niwtral</b>	<ol style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Cyngor yn cynnig cyfleoedd i'w holl staff mewnol ym mhob gwasanaeth gael hyfforddiant am ddim i wella eu sgiliau Cymraeg. Mae Carfan Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn gweithio i ddatblygu cymorth technolegol i siaradwyr Cymraeg ac i ddysgwyr fel bod modd i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.</li> <li>Y datblygiadau sydd wedi'u cynnwys yn y</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>Mae'n ofynnol i holl staff newydd y Cyngor ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg Lefel 1. Bydd y staff hynny sy'n llwyddo i gyflawni Lefel 1 yn cael eu hannog i wella eu sgiliau trwy ddilyn lefelau 2 a 3.</li> <li>Mae data a gasglwyd gan y garfan Mynediad a Chynhwysiant yn dangos mai 14% o'r atgyfeiriadau yn ystod</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>Mae'n ofynnol i holl staff newydd y Cyngor ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg Lefel 1. Bydd y staff hynny sy'n llwyddo i gyflawni Lefel 1 yn cael eu hannog i wella eu sgiliau trwy ddilyn lefelau 2 a 3.</li> <li>Bydd effaith sefydlu'r ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg newydd yn YGG Awel Taf yn cael</li> </ol>

		<p>cynnig yma yw sefydlu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Saesneg ledled y fwrdeistref sirol lle mae angen a galw a nodwyd am ddarpariaeth arbenigol. O'r herwydd, dylai'r effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg fod yn niwtral gan fod y darpariaethau arbenigol sy'n cael eu cynnig mewn ymateb i'r angen a nodwyd am y math yma o ddarpariaeth. Cafodd 2 Ddosbarth Cynnal Dysgu cyfnod cynradd cyfrwng Cymraeg newydd eu hagor yn ddiweddar yn YGG Awel Taf, ac mae'r rhain bellach yn cynnig darpariaeth arbenigol trwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion oed cynradd yn Rhondda Cynon Taf. Yn ogystal, cafodd darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg ei sefydlu ar gyfer disgyblion oed uwchradd yn Ysgol Garth Olwg ym Medi 2023, gan sicrhau bod modd i</p>	<p>blwyddyn academaidd 2023-24 oedd yn ymwneud â disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, a chyfanswm yr atgyfeiriadau yn ymwneud â disgyblion cyfrwng Saesneg oedd 79%. Mae hyn yn dangos yr angen i ddatblygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg a Saesneg i sicrhau bod pob disgybl ag ADY yn Rhondda Cynon Taf yn cael ei gefnogi'n ddigonol trwy gydol ei daith addysg statudol. Mae data a gasglwyd gan y garfan Cynhwysiant a Mynediad yn dangos bod 7% o gyfanswm nifer y disgyblion sy'n defnyddio lleoliadau arbenigol sydd wedi mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn flaenorol, bellach yn defnyddio darpariaeth Dosbarth Cynnal</p>	<p>ei gwerthuso maes o law. Gan mai ym mis Medi 2024 yr agorodd y ddarpariaeth i ddisgyblion, bydd y garfan Mynediad a Chynhwysiant yn monitro'r galw am y gwasanaeth yn agos a phe bai'r galw am y gwasanaeth yn dechrau mynd y tu hwnt i'r capasiti, bydd y Cyngor yn ystyried cynlluniau ar gyfer datblygu'r mathau hyn o ddarpariaethau ymhellach er mwyn sicrhau bod modd i bob disgybl ag ADY sylweddol yn Rhondda Cynon Taf gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg, os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. Pan fydd y garfan Mynediad a Chynhwysiant yn derbyn atgyfeiriad am gymorth arbenigol mewn perthynas â disgyblion sy'n</p>
--	--	--	--	---

		<p>ddisgyblion barhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel oedran uwchradd. Er bod y darpariaethau hyn wedi'u lleoli mewn ysgolion penodol, mae'r lleoedd ar gael i bob disgybl yn Rhondda Cynon Taf ag anghenion dysgu sylweddol, waeth beth yw eu dalgylch/lle maen nhw'n byw. Y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg penodedig yn YGG Awel Taf ac Ysgol Garth Olwg yn ôl eu trefn, yw'r cyntaf o'u math yn Rhondda Cynon Taf, a dylen nhw gael effaith gadarnhaol ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Os bernir ei fod yn llwyddiannus, bydd Gwasanaethau Mynediad a Chynhwysiant y Cyngor yn archwilio opsiynau i ddatblygu darpariaeth bellach fel hyn mewn gwahanol ardaloedd o'r Fwrdeistref Sirol. Fel y soniwyd uchod yn yr asesiad, mae'r Cyngor wedi dechrau hyrwyddo</p>	<p>Dysgu cyfrwng Saesneg oherwydd diffyg darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn y Fwrdeistref Sirol.</p>	<p>mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, bydd y garfan yn mynd ati i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i'r disgyblion hyn barhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r lleoliadau arbenigol sydd ar gael.</p>
--	--	--	---	--

		<p>addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag ADY trwy greu a rhannu fideo hyrwyddo, sy'n cynnwys cyfweiliadau â rhieni a chyfweiliadau â staff. Bydd y Cyngor yn parhau i fynd ati i farchnata a hyrwyddo'r cynnig addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag ADY.</p>		
--	--	---	--	--

## Cam 2 – Asesu Effaith

A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?

	A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?	Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.	Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?	Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?
<p><b>Niferoedd a / neu ganrannau'r siaradwyr Cymraeg</b>  e.e. Cyfleoedd Addysg / Astudio Cyfrwng Cymraeg. Cysylltiadau â <a href="#">Strategaeth Cymraeg 2050</a> Llywodraeth Cymru / <a href="#">Strategaeth y</a></p>	Niwtral	<p>1. Mae strategaeth uchelgeisiol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn galw am newidiadau pellgyrhaeddol a gwthio ffiniau i gynyddu'r</p>	<p>1. Mae Deiliant 6 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor yn canolbwyntio'n benodol ar gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag ADY. O'r</p>	<p>1. Dosbarthu taflenni hyrwyddo'r Cyngor yn ehangach, sy'n cynnwys gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i ddisgyblion ag ADY sy'n dymuno cael</p>

niferoedd sy'n dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg. Er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, mae angen i bob awdurdod lleol drawsnewid sut mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu i bob disgybl. Mae agor darpariaethau cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer disgyblion ag ADY sylweddol yn Rhondda Cynon Taf yn gam cadarnhaol ymlaen tuag at gynyddu nifer a chanrannau siaradwyr Cymraeg. Bydd carfan Mynediad a Chynhwysiant y Cyngor yn gweithio'n agos gyda theuluoedd y maen nhw mewn cysylltiad â nhw i sicrhau bod modd i unrhyw ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd gael cynnig cyfleoedd i barhau â'u

herwydd, mae grŵp penodedig wedi'i sefydlu i ganolbwyntio ar ystod o gamau gweithredu i weithio tuag at gynyddu a gwella'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gosod dyletswyddau statudol ar y Cyngor i weithio tuag at gyflawni'r 7 deilliant sydd wedi'u rhestru yn y cynllun ac yn dangos y ffocws strategol sydd gan y Cyngor nid yn unig ar gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag ADY, ond hefyd ar gynyddu a gwella'r ddarpariaeth yn gyffredinol fel ein bod yn gweld cynnydd yn nifer a chanrannau y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf.

2. Rhennir data a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Siarter Iaith Gymraeg â'r Cyngor bob chwarter drwy Swyddog

eu haddysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Byddai modd dosbarthu'r taflenni hyn yn y ffyrdd canlynol: mewn achlysuron cyhoeddus, mewn lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, yn uniongyrchol gydag unrhyw rieni/gwarcheidwaid sy'n gweithio gyda'r garfan Mynediad a Chynhwysiant.

2. Parhau i weithio gyda'r Consortiwm i hyrwyddo a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg trwy wobrau 'Cymraeg Campus' y Siarter Iaith.
3. Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor i weithio ar y cyd gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu strategaethau yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor i

		<p>haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r lleoliadau arbenigol. Bydd hyn yn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, a'r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor.</p> <p>2. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cymorth wedi'i rhoi i hyrwyddo a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg trwy weithredu'r Siarter Iaith/Cymraeg Campus mewn partneriaeth â'r Consortiwm. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg Rhondda Cynon Taf wedi ymgysylltu â'r rhaglen sy'n ceisio datblygu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Yn fwy diweddar, mae'r Consortiwm wedi dechrau gweithio gydag ysgolion arbennig, dosbarthiadau cynnal</p>	<p>Iaith Gymraeg y Consortiwm.</p> <p>3. Mae is-grŵp Deilliant 7 y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn rhoi ffocws effeithiol ar yr heriau a wynebir o ran y gweithlu mewn ysgolion. Mae'r grŵp yn cynnwys swyddogion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n cydweithio i roi strategaethau ar waith a fydd yn creu rhagor o siaradwyr Cymraeg er mwyn sicrhau bod gyda ni weithlu mewn ysgolion sy'n ddigonol o ran maint a gallu.</p>	<p>gefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr, a chyfrannu at ddatblygu strategaethau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol. Mewn perthynas yn benodol â chynyddu'r gweithlu, bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Consortiwm i hyrwyddo'r ystod o gyfleoedd dysgu ar gyfer datblygiad proffesiynol sydd ar gael i staff ysgolion i uwchsgilio'u sgiliau Cymraeg i gefnogi'r defnydd cynyddol o'r Gymraeg ym mhob ysgol a lleoliad.</p>
--	--	---	---	--

		<p>dysgu ac unedau cyfeirio disgyblion yn Rhondda Cynon Taf i roi rhaglen y Siarter Iaith (Cymraeg Campus) ar waith. Hyd yn hyn, mae 4 ysgol/uned arbennig wedi ennill gwobr efydd Cymraeg Campus.</p> <p>3. Wrth gyfrannu at y weledigaeth o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, ac yn unol â'r ymrwymadau a amlinellir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor, mae sicrhau gweithlu o faint a gallu digonol mewn ysgolion yn hanfodol. Er mwyn creu rhagor o siaradwyr Cymraeg, mae ein system addysg yn ddibynnol ar ei gweithlu ysgolion. Rhaid i ni weithio ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i sicrhau gweithlu ysgolion â</p>		
--	--	---	--	--



		sgiliau ieithyddol cadarn sydd â'r gallu i ysbrydoli ac ysgogi disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg.		
<p><b>Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg</b> e.e. statws, defnyddio Gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn rhan o fywyd beunyddiol yn y gwaith ac yn y gymuned</p> <p>Mynd ati'n weithredol i annog a hyrwyddo defnydd o'n gwasanaethau Cymraeg i weld cynnydd yn y galw dros amser</p>	<b>Cadarnhaol</b>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Fel y soniwyd uchod, mae gwobr 'Cymraeg Campus' y Siarter Iaith yn cael effaith gadarnhaol ar hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion a lleoliadau sy'n ymwneud â'r rhaglen drwy ddarparu rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt. Yn rhan o'r meini prawf ar gyfer cyflawni'r gwobrau hyn, rhaid i ddisgyblion ddysgu am hanes Cymru a'r iaith Gymraeg a'n diwylliant, sy'n cefnogi hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach.</li> <li>2. Er ei bod yn bosibl na fydd y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu sydd wedi'u cynnwys yn y</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Ar ddiwedd blwyddyn gyntaf y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (2022-23), casglwyd data gan ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn Rhondda Cynon Taf i werthuso effaith 'Cymraeg Campus' y Siarter Iaith. O'r ymatebion a ddaeth i law, dywedodd pob ysgol fod disgyblion yn defnyddio elfennau o'r Gymraeg yn hyderus ar draws yr ysgol, bod staff yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda disgyblion yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt, a bod gan staff a disgyblion ddealltwriaeth well o hanes a diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg.</li> <li>2. Caiff pob ysgol a lleoliad newydd eu hadeiladu i</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Parhau i weithio gyda'r Consortiwm i gefnogi pob ysgol a lleoliad i gyflawni gwobrau 'Cymraeg Campus' y Siarter Iaith i gefnogi'r defnydd cynyddol o'r Gymraeg mewn ysgolion a lleoliadau.</li> <li>2. Cefnogi'r holl ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig yma i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg cymaint â phosibl, gan sicrhau bod cyfleoedd i bawb ddefnyddio a hyrwyddo'r iaith.</li> </ol> <p>Parhau i weithio tuag at gyflawni'r camau gweithredu sydd wedi'u nodi yn y Strategaeth Bum Mlynedd ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg. .</p>

		<p>cynnig yma yn hyrwyddo'r Gymraeg yn uniongyrchol, mae'r newidiadau statudol i ddarpariaeth ADY yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Cwricwlwm Newydd ar gyfer Cymru yn sicrhau bod rhagor o gyfleoedd i bob disgybl ddefnyddio'r Gymraeg, a fydd yn ei dro yn cefnogi hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.</p> <p>3. Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi strategaeth bum mlynedd i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg. Cafodd ail strategaeth bum mlynedd y Cyngor ei chymeradwyo yn 2022. Mae'r strategaeth honno ar gyfer y blynyddoedd rhwng 2022 a 2027 ac mae'n amlinellu nifer o feysydd polisi allweddol er mwyn</p>	<p>gydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf ALNET 2018. Mae pob datblygiad presennol a'r rhai yn y dyfodol yn ystyried y ddwy ddeddf i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn.</p> <p>3. Mae Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn adolygu'r Strategaeth Hyrwyddo Bum Mlynedd y Gymraeg yn fanwl, gan ofyn am ddiweddariadau gan adrannau a sefydliadau eraill ar ddiwedd pob blwyddyn o'i weithredu er mwyn nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun gweithredu.</p>	
--	--	--	---	--

		<p>cynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn ystod ei hoes, a'i gynyddu. Wrth ddatblygu'r cynnig yma, rydyn ni wedi cymryd Strategaeth Hybu'r Gymraeg Rhondda Cynon Taf a dogfennau eraill i ystyriaeth er mwyn annog a hwyluso twf tymor hir mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi sicrhau bod y Cynllun Strategol wedi'i alinio â'r Strategaeth, a bydd yn parhau i wneud hynny.</p>		
--	--	--	--	--

### **Cam 2 – Asesu Effaith**

**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?**

	<b>A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?</b>	<b>Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.</b>	<b>Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?</b>	<b>Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?</b>
--	--	---	---	---

<p><b>Cydymffurfio â Safonau Cymraeg Statudol y Cyngor</b> e.e. cynyddu neu leihau gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Ystyried hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith.</p>	<p><b>Niwtral</b></p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Bydd pob ymgynghoriad statudol perthnasol a gofynnol sy'n gysylltiedig â'r cynnig yma'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys y profforma ymgynghori lle gwahoddir rhanddeiliaid i roi eu hadborth i'r newidiadau arfaethedig. Bydd hyn ar gael ar-lein yn ddwyieithog.</li> <li>2. Er bod yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig yma'n ysgolion cyfrwng Saesneg, mae hyn oherwydd galw a nodwyd am y ddarpariaeth yn yr ardaloedd hyn o'r fwrdeistref sirol. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi sefydlu 2 Ddosbarth Cynnal Dysgu cynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd, sef YGG Awel Taf, a agorodd i ddisgyblion</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Bydd yr ymgynghoriad statudol perthnasol a gofynnol yn cael ei gynnal yn ddwyieithog a bydd gohebiaeth gyhoeddus mewn perthynas â'r cynnig yn cael ei pharatoi'n ddwyieithog. Yn ystod proses ymgynghori adlinio Dosbarthiadau Cynnal Dysgu 2023, derbyniwyd rhai ymatebion i'r profforma ymgynghori yn ddwyieithog.</li> <li>2. Mae data CYBLD yn dangos bod nifer y disgyblion ag ADY sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yn sylweddol is na'r rhai mewn addysg cyfrwng Saesneg. Mae niferoedd cyfrwng</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cyn achlysuron ymgynghori, byddwn ni'n ymgynghori ag ysgolion i gynig yr opsiwn o gynnal achlysuron yn ddwyieithog. Os bydd digon o alw am hyn, bydd hyn yn cael ei drefnu i sicrhau bod modd cynnig gwasanaethau'n ddwyieithog.</li> </ol> <p>Mae'r Cyngor wedi paratoi fideo hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion ag ADY gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r fideo wedi'i rannu ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor ac mae ar gael ar wefan y Cyngor. Bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo'r fideo, ynghyd ag adnoddau eraill sydd ar gael, mor eang â phosibl er mwyn gwneud cymaint o deuluoedd â phosibl yn effro i'r cyfleoedd sydd ar gael.</p>
--	-----------------------	---	---	--

		<p>ym mis Medi 2024. Mae hyn yn ychwanegol at y Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion oed uwchradd yn Ysgol Garth Olwg a agorodd ym mis Medi 2023. Mae'r galw am y ddarpariaeth yn cael ei fonitro'n agos a phe bai'r galw'n cynyddu, bydd y Cyngor yn ystyried opsiynau ar gyfer datblygu yn y dyfodol i sicrhau bod digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael yn Rhondda Cynon Taf i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu sylweddol. Mae'r data sydd ar gael yn dangos yr angen am ddarpariaeth bellach i sicrhau bod modd i ddisgyblion ag ADY sylweddol yn Rhondda Cynon Taf dderbyn eu haddysg, er gwaethaf cyfrwng yr iaith. O'r</p>	<p>Cymraeg wedi aros yn weddol sefydlog am y 3 blynedd academiaidd ddiwethaf tra bod y niferoedd mewn addysg cyfrwng Saesneg wedi cynyddu.</p> <p>Yn ystod y broses ymgynghori ar symud Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn 2023, derbyniwyd rhai ymatebion i'r profforma ymgynghori yn ddwyieithog.</p>	
--	--	--	--	--

		herwydd, ddylai'r cynnig yma ddim gael effaith negyddol ar gydymffurfiaeth â Safonau Statudol y Gymraeg y Cyngor.		
<b>Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</b>	<b>Niwtral.</b>	1. Fel y soniwyd uchod, er bod y cynnig yma'n cynnwys datblygu darpariaeth cyfrwng Saesneg yn unig, mae hyn yn sgil y galw a nodwyd am y ddarpariaeth. Mae agor y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg newydd yn Rhondda Cynon Taf wedi rhoi'r cyfle ar gyfer cynnig mwy cytbwys i deuluoedd gan fod gyda nhw ddewis o leoliadau arbenigol trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Er mwyn cynyddu'r galw am addysg ADY cyfrwng Cymraeg, mae'r Cyngor wedi dechrau mynd ati i hyrwyddo'r	1. Mae'r Rhaglen Band B Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu'n cynnwys ystod eang o ysgolion, cyfrwng Cymraeg a Saesneg, mewn gwahanol rannau o'r Fwrdeistref Sirol i ddarparu gwell cyfleusterau a mynediad teg i addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg dda.	1. Dosbarthu taflenni hyrwyddo'r Cyngor yn ehangach, sy'n cynnwys gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i ddisgyblion ag ADY sy'n dymuno cael eu haddysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Byddai modd dosbarthu'r taflenni hyn yn y ffyrdd canlynol: mewn achlysuron cyhoeddus, mewn lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, yn uniongyrchol gydag unrhyw rieni/gwarcheidwaid sy'n gweithio gyda'r garfan Mynediad a Chynhwysiant.

		<p>cyfleoedd sydd ar gael trwy ymgyrchoedd marchnata a thrwy godi ymwybyddiaeth yn gyffredinol ymhlith teuluoedd bod hwn yn opsiwn i'w plentyn/plant, a bydd yn parhau i'w hyrwyddo. Pe bai'r galw am ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn cynyddu ac yn dechrau mynd y tu hwnt i'r capasiti sydd ar gael, bydd y Cyngor yn ystyried cynlluniau i'r dyfodol ar gyfer datblygu darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg ar y cam yma, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		
--	--	---	--	--

### **Cam 3 – Gwella'r cynnig**

Ar ôl rhestru camau gweithredu yn adran 2 a allai liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol – nodwch isod pa rai y byddwch chi'n eu cynnwys yn y cynnig polisi a phwy fydd yn gyfrifol amdanyn nhw.

Ystyriwch hefyd a yw'r cynnig yn angenrheidiol? A fyddai modd bodloni'r galw heb unrhyw ddatblygiadau newydd? A fyddai modd defnyddio darpariaeth arall sy'n bodoli eisoes? Ble dylai'r datblygiad fod?

Beth rydych chi'n mynd i'w wneud?	Pryd ydych chi'n mynd i'w wneud?	Pwy sy'n gyfrifol?
<p>Mae'n ofynnol i holl staff newydd y Cyngor ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg Lefel 1. Bydd y staff hynny sy'n llwyddo i gyflawni Lefel 1 yn cael eu hannog i wella eu sgiliau trwy ddilyn lefelau 2 a 3.</p>	<p>Hyrwyddo'n uniongyrchol y cyfleoedd sydd ar gael i aelodau o staff sy'n cyrraedd Lefel 1 a mynd ati'n weithredol i'w hannog i ymgymryd ag astudiaethau pellach i gyrraedd lefelau 2 a 3. Caiff hyn ei wneud trwy Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor a thiwtor Cymraeg penodedig y Cyngor.</p>	<p>Uned Gwasanaethau Cymraeg</p>
<p>Bydd effaith sefydlu'r ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg newydd yn YGG Awel Taf yn cael ei gwerthuso maes o law. Gan mai ym mis Medi 2024 yr agorodd y ddarpariaeth i ddisgyblion, bydd y garfan Mynediad a Chynhwysiant yn monitro'r galw am y gwasanaeth yn agos a phe bai'r galw am y gwasanaeth yn dechrau mynd y tu hwnt i'r capasiti, bydd y Cyngor yn ystyried cynlluniau ar gyfer datblygu'r mathau hyn o ddarpariaethau ymhellach er mwyn sicrhau bod modd i bob disgybl ag ADY sylweddol yn Rhondda Cynon Taf gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg, os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. Pan fydd y garfan Mynediad a Chynhwysiant yn derbyn atgyfeiriad am gymorth arbenigol mewn perthynas â disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, bydd y garfan yn mynd ati i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i'r</p>	<p>Agorodd y ddarpariaeth ym mis Medi 2024 pan agorodd yr ysgol newydd. Bydd y galw am ddarpariaeth yn cael ei fonitro drwy gydol y flwyddyn academaidd a bydd gwerthusiad diwedd</p>	<p>Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant</p>



<p>disgyblion hyn barhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r lleoliadau arbenigol sydd ar gael.</p>	<p>blwyddyn yn cael ei gynnal ar ddiwedd y flwyddyn academaidd yma i asesu effaith agor y ddarpariaeth newydd.</p>	
<p>Dosbarthu taflenni hyrwyddo'r Cyngor yn ehangach, sy'n cynnwys gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i ddisgyblion ag ADY sy'n dymuno cael eu haddysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Byddai modd dosbarthu'r taflenni hyn yn y ffyrdd canlynol: mewn achlysuron cyhoeddus, mewn lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, yn uniongyrchol gydag unrhyw rieni/gwarcheidwaid sy'n gweithio gyda'r garfan Mynediad a Chynhwysiant.</p>	<p>Ar adegau amrywiol yn ystod y flwyddyn academaidd yma wrth fynd i achlysuron ac ymweld â lleoliadau, ac yn ystod ymgysylltiadau â theuluoedd sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant.</p>	<p>Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant, y garfan Datblygu Gofal Plant</p>
<p>Parhau i weithio gyda'r Consortiwm i hyrwyddo a chynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg trwy wobrau 'Cymraeg Campus' y Siarter Iaith.</p>	<p>Mae'r gwaith yma'n parhau. Mae'r Consortiwm yn parhau i gefnogi pob ysgol a lleoliad i weithio drwy'r gwobrau efydd, arian ac aur.</p>	<p>Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De</p>

<p>Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor i weithio ar y cyd gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu strategaethau yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr, a chyfrannu at ddatblygu strategaethau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol. Mewn perthynas yn benodol â chynyddu'r gweithlu, bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Consortiwm i hyrwyddo'r ystod o gyfleoedd dysgu ar gyfer datblygiad proffesiynol sydd ar gael i staff ysgolion i uwchsgilio'u sgiliau Cymraeg i gefnogi'r defnydd cynyddol o'r Gymraeg ym mhob ysgol a lleoliad.</p>	<p>Mae hyn yn parhau drwy gydol cyfnod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (2022-2032). Yn fwy penodol i'r cyfleoedd dysgu datblygiad proffesiynol, mae'r Consortiwm a'r gyfarwyddiaeth Addysg yn hyrwyddo'r cyfleoedd hyn gydag ysgolion ar adegau amrywiol yn ystod y flwyddyn academaidd.</p>	<p>Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De</p>
<p>Cyn achlysuron ymgynghori, byddwn ni'n ymgynghori ag ysgolion i gynnig yr opsiwn o gynnal achlysuron yn ddwyieithog. Os bydd digon o alw am hyn, bydd hyn yn cael ei drefnu i sicrhau bod modd cynnig gwasanaethau'n ddwyieithog.</p>	<p>Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 30 Medi 2024 ac yn dod i ben am 5pm ar 11 Tachwedd 2024. Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei goladu a'i grynhoi, a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Gabinet y</p>	<p>Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant</p>

	Cyngor ym mis Tachwedd 2024.	
Mae'r Cyngor wedi paratoi fideo hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion ag ADY gael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r fideo wedi'i rannu ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor ac mae ar gael ar wefan y Cyngor. Bydd y Cyngor yn parhau i hyrwyddo'r fideo, ynghyd ag adnoddau eraill sydd ar gael, mor eang â phosibl er mwyn gwneud cymaint o deuluoedd â phosibl yn effro i'r cyfleoedd sydd ar gael.	Caiff y fideo yma'i rannu ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor bob ychydig wythnosau ac mae ar gael ar wefan y Cyngor. Bydd y Cyngor yn parhau i rannu'r fideo i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael.	Swyddog Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

#### **Cam 4 – Adolygu**

Yn rhan o'r Broses Asesu Effaith ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a Dyletswydd Cymdeithasol-Economaidd, dylai'r holl gynigion sy'n dod o fewn y diffiniad o Benderfyniad Allweddol Sylweddol gael eu cyflwyno i Swyddogion y Panel Adolygu. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch adroddiad gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol Strategol, anfonwch eich asesiad effaith i gyfeiriad e-bost – [BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk](mailto:BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk) fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. [Darllenwch ein dogfen ganllaw](#) i gael rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol Sylweddol.

Ar gyfer pob cynnig polisi, p'un a yw'n Benderfyniad Allweddol Sylweddol ai peidio, mae'n ofynnol i chi anfon yr asesiad hwn ymlaen i Wasanaethau Cymraeg yn y lle cyntaf i gael rhywfaint o arweiniad ac adborth cychwynnol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon fel y gallwn ddangos sut rydyn ni wedi ystyried ac ymgorffori ystyriaethau cynaliadwy o ran y Gymraeg lle bynnag y bo modd. Gofalwch eich bod chi'n diweddarau'r adrannau perthnasol isod:

Sylwadau'r Uned Gwasanaethau Cymraeg	Dyddiad Ystyried y Cynnig	Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn adborth gan yr Uned Gwasanaethau Cymraeg
<p>Diolch i chi am gyflwyno'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg ar gyfer y cynnig yma, ac am eich ystyriaeth o rai o'r effeithiau cadarnhaol y gallai'r cynnig eu cael ar y Gymraeg. Serch hynny, mae rhai effeithiau negyddol posibl y mae angen rhoi sylw iddyn nhw. Hoffen ni weld ystyriaeth fwy cydwybodol o'r effaith y gallai agor Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Saesneg ei chael ar ddisgyblion ADY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, a sut y gallai rhieni benderfynu symud eu plant o ysgolion cyfrwng Cymraeg i'r ysgolion cyfrwng Saesneg er mwyn cael mynediad i'r ddarpariaeth, neu i beidio eu hanfon i'r ysgol Gymraeg yn y lle cyntaf, gan ddewis yr ysgolion cyfrwng Saesneg gyda Dosbarth Cynnal Dysgu 'rhag ofn' y bydd eu hangen arnyn nhw yn y dyfodol. Dylen ni ddweud rhagor am pam nad oes gyda ni Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg hyd yma yng Nghwm Cynon, a beth yw ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn hyn o beth. Hoffen ni hefyd weld mwy o eglurhad o'r cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu Cymraeg a fydd ar gael i'r disgyblion sy'n defnyddio'r cyfleusterau Dosbarth Cynnal Dysgu newydd hyn.</p>		<p>Mae sylwadau wedi'u hystyried, mae diwygiadau priodol wedi'u gwneud ble y bo'n addas.</p> <p>Fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a Deddf ALNET 2018, mae'r Awdurdod Lleol yn adolygu'n barhaus ddigonolrwydd ei Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd ac yn gweithio'n rhagweithiol tuag at ddatblygu system ADY gwbl ddwyieithog dros amser.</p> <p>Caiff cynigion i wella darpariaethau'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu, boed yn gyfrwng Saesneg neu'n gyfrwng cyfrwng Cymraeg, eu llunio yn dilyn dadansoddiad data cadarn o'r disgyblion, eu ADY a'r galw am ddarpariaeth. Ar hyn o bryd dydy data ddim yn awgrymu bod angen darpariaethau cyfrwng Cymraeg pellach yn Rhondda Cynon Taf. Mae gyda ni 3 Dosbarth Cynnal Dysgu eisoes sy'n cefnogi disgyblion y cyfnod cynradd ac uwchradd a does yr un ohonyn nhw'n llawn. Felly, ar hyn o bryd mae digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y mae modd i ddisgyblion sydd angen darpariaeth arbenigol ADY trwy gyfrwng</p>

		<p>y Gymraeg gael mynediad iddi yn y fwrdeistref.</p> <p>Mae'r Gymraeg yn elfen orfodol o'r Cwricwlwm i Gymru y mae'n rhaid i bob ysgol gydymffurfio ag ef.</p>
<b>Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu</b>	<b>Dyddiad Ystyried y Cynnig</b>	<b>Disgrifiad byr o unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau gan Swyddogion y Panel Adolygu</b>
<b>Sylwadau'r Adran Ymgynghori</b>	<b>Dyddiad Ystyried y Cynnig</b>	<b>Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad</b>
<p>Codwyd cwestiynau gan 2 ymatebwr ynghylch a fydd y ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion yn cynyddu ac a fydd adleoli'r Dosbarth Cynnal Dysgu'n effeithio ar ddarpariaeth y Gymraeg o fewn y cwricwlwm.</p>	Tachwedd 24	<p>Mae ymateb wedi'i ddarparu yn yr Adroddiad Ymateb i Adborth i'r Ymgynghoriad sydd i'w gyhoeddi ym mis Ionawr 2025. Fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a Deddf ALNET 2018, mae'r Awdurdod Lleol yn adolygu'n barhaus ddigonolrwydd ei Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd ac yn gweithio'n rhagweithiol tuag at ddatblygu system ADY gwbl ddwyieithog dros amser.</p> <p>Mae'r Gymraeg yn elfen orfodol o'r Cwricwlwm i Gymru y mae'n rhaid i bob ysgol gydymffurfio ag ef.</p>

### **Cam 5 – Monitro, Gwerthuso ac Adolygu**

Sut byddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig, a gyda phwy?

Bydd swyddogion y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn monitro'r cynnig trwy gydol y cyfnod ymgynghori a gweithredu.

Bydd y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn cynnal adolygiad 'Gwersi a Ddysgwyd' ar ddiwedd y cam gweithredu a bydd hyn yn bwydo i mewn i brosiectau yn y dyfodol fel bod pob prosiect yn gwella ac yn elwa ar y gwersi a ddysgwyd (cadarnhaol a negyddol) yn ystod prosiectau blaenorol.

### **Cam 6 – Crynodeb o'r Effeithiau gan y Cynnig**

Nodwch grynodeb o'r asesiad effaith. Dylai'r crynodeb hwn gael ei gynnwys yn adran Ystyriaethau Cymraeg yn rhan o dempled adroddiad Uwch Reolwyr y Cyngor / y Cabinet. Dylid cyhoeddi'r asesiad effaith ochr yn ochr â'r adroddiad.

I grynhoi, mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn nodi effeithiau cadarnhaol neu niwtral ar y Gymraeg yn unig.

- O ran y cynnig i wella'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu, fydd dim newid i ddosbarthiadau ADY cyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd mae gan Rondda Cynon Taf 2 Ddosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer y Cyfnod Cynradd yn YGG Awel Taf. Mae yno le i 18 o ddisgyblion sy'n dangos anghenion sylweddol. Mae hefyd gan Rondda Cynon Taf Ddosbarth Cynnal Dysgu cyfrwng Cymraeg ar gyfer Cyfnod Allweddol 3/4 yn Ysgol Garth Olgw. Mae yno le i 14 o ddisgyblion sy'n dangos anghenion sylweddol.
- Er y bydd y gwelliannau arfaethedig yn cael effaith niwtral ar gyfleoedd Cymraeg i'r cyhoedd yn gyffredinol, cydnabyddir y bydd yr holl staff wedi'u cyflogi ar gyfer y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu arfaethedig yn cael hyfforddiant i gyrraedd Lefel 1 o ran eu sgiliau Cymraeg. Bydd staff y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu hefyd yn cael eu hannog i wella eu sgiliau trwy ymgymryd â lefelau 2 a 3.
- Bydd pob ymgynghoriad statudol perthnasol a gofynnol sy'n gysylltiedig â'r cynnig yma'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
- Mae'r cynigion hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Saesneg oherwydd y cynnydd

arfaethedig mewn lleoliadau Blynnydoedd Cynnar a lleoliadau ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymhleth, Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol ac Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig.

**Cam 7 – Cymeradwyo**

<b>Enw'r Swyddog sy'n cwblhau'r Aseiad Effaith ar y Gymraeg</b>	Lisa Carter	<b>Enw Cyfarwyddwr Gwasanaeth:</b>	Gaynor Davies
<b>Swydd</b>	Cydlynnydd Materion Cynhwysiant	<b>Rydw i'n argymhell bod y cynnig: (Tynnwch sylw at y penderfyniad)</b>	<b>Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw newidiadau</b>
			<b>Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu</b>
			<b>Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur ar y Gymraeg</b>
<b>Llofnod</b>		<b>Llofnod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth</b>	
<b>Dyddiad</b>		<b>Dyddiad</b>	